

Cwestiynau Cyffredin i Wirfoddolwyr Cartrefi Gofal

1. A oes angen i mi fod wedi cael Brechiadau Covid-19?

Gofynnwn i chi roi gwybod i ni pa frechiad(au) rydych wedi'u cael a phryd. Gallwch wneud hyn ar eich ffurflen gais.

2. A fydd angen i mi gymryd prawf Covid a gwisgo cyfarpar diogelu personol?

Bydd. Bydd angen i chi gymryd prawf Covid cyn i chi fynd i mewn i'r cartref gofal. Bydd rheolwr y cartref gofal yn trefnu eich prawf a'ch cyfarpar diogelu personol. Rhaid i chi roi gwybod i'r cartref gofal os oes gennych unrhyw symptomau Covid neu os ydych wedi dod i gysylltiad â rhywun sydd wedi cael prawf positif.

3. A fydd angen gwisg arnaf?

Bydd Age Cymru yn rhoi crys polo â delwedd Age Cymru arno i chi.

4. Pa hyfforddiant fyddaf yn ei dderbyn?

Bydd Age Cymru yn cynnig hyfforddiant i chi mewn pynciau hanfodol fel Diogelu a manylion pellach am ddod yn wirfoddolwr Age Cymru. Byddwch hefyd yn derbyn hyfforddiant sy'n benodol i'r rôl hon. Bydd yr holl hyfforddiant yn cael ei gynnal ar Zoom neu Teams.

5. A fydd y cartref gofal yn rhoi cymorth i mi?

Bydd gennych bwynt cyswllt yn y cartref gofal a fydd yn eich tywys o gwmpas yr adeilad ac yn eich croesawu i'r tîm. Bydd y pwynt cyswllt yn y cartref gofal yn rhoi gwybod i chi am ganllawiau diweddaraf Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud ag ymweliadau cartrefi gofal a'r hyn a ddisgwylir ohonoch yn y cartref i gadw pawb yn ddiogel.

6. Pa mor aml y mae angen i mi ymrwymo i'r rôl hon yn y cartref gofal?

Mae unrhyw amser y gallwch ei roi yn cael ei dderbyn yn ddiolchgar. Er mwyn cyflawni'r rôl hon gofynnwn i chi gynnig eich amser mewn bloc tair awr, bydd hyn yn

rhoi amser o ansawdd i chi a'r ymwelwyr yr ydych yn eu cefnogi i ailgysylltu â'u hanwyliaid.

7. Oes angen i mi wirfoddoli ar benwythnosau?

Mae'r rhan fwyaf o ymweliadau â chartrefi gofal yn cael eu cynnal ar benwythnosau ar hyn o bryd. Byddai'n ddefnyddiol iawn pe gallech gynnig rhai oriau dros y penwythnos ond nid yw hynny'n hanfodol.

8. A bydd gofyn i mi gefnogi preswylwyr y cartref gofal?

Na, eich rôl chi yw cefnogi ymweliadau â'r cartref gofal. Bydd y staff gofal neu'r teulu/ymwelydd yn darparu unrhyw gymorth sydd ei angen ar y preswylwyr.

9. A allaf wirfoddoli mewn Cartref Gofal lle mae ffrind neu berthynas yn byw?

Gallwch. Nid oes unrhyw reswm o gwbl pam na allwch wirfoddoli mewn cartref lle mae rhywun rydych chi'n ei adnabod yn byw.

10. Pan fydd y prosiect peilot hwn wedi dod i ben, a allaf barhau i wirfoddoli yn y cartref gofal?

Bydd hyn yn rhywbeth y gallwch ei drafod gyda'r rheolwr o fewn y cartref gofal.

Mae Age Cymru yn elusen gofrestrdig 1128436. Cwmni cyfyngedig drwy warant ac wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr 6837284. Cyfeiriad swyddfa gofrestrdig Llawr Gwaelod, Mariners House, Trident Court, East Moors Road, Caerdydd CF24 5TD. © Age Cymru 2021